



Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) Diwrnod y cyfrifiad: 21 Ionawr 2025

Y casgliad data CYBLD ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/2025

Cwestiynau cyffredin: Rhestr gyfeirio gyflym

Dyddiad cyhoeddi: 4 Medi 2024
Fersiwn: 1.0

Casgliad ddata CYBLD

21 Ionawr 2025 (diwrnod y cyfrifiad)

Cynulleidfa

Penaethiaid ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol.

Trosolwg

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'n nodiadau cwblhau technegol hyn i helpu'r gynulleidfa uchod i gydymffurfio â'u dyletwyddau statudol.

Camau angenrheidiol

Rhaid i bob ysgol babanod, cynradd, uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir yng Nghymru gwblhau dychweliad CYBLD.

Manylion pellach

Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar lenwi unrhyw ran o'r casgliad yma, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Dylid anfon ymholiadau am y ddogfen hon at:

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Y Tîm Casgliadau Data
Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5014 / 0300 025 3358
E-bost: IMS@llyw.cymru / PLASC@llyw.cymru



@LIC_Addysg



@AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen yma ar gael ar wefan Llywodaeth Cymru yn llyw.cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



© Hawffraint y Goron Medi 2024
WG50498

Cynnwys

1.	Pob ysgol	1
2.	Ysgolion cynradd	7
3.	Ysgolion canol	12
4.	Ysgolion uwchradd	13
5.	Ysgolion arbennig	17
6.	Unedau/ysgolion meithrin	19
7.	Unedau cyfeirio disgyblion (PRUs)	23
8.	Ble mae rhagor o gymorth ar gael?	24

1. Pob ysgol

1.1 Pryd y mae diwrnod y cyfrifiad?

Dyddiad y cyfrifiad eleni yw **dydd Mawrth 21 Ionawr 2025**.

1.2 Erbyn pryd ddylwn i gyflwyno datganiad CYBLD?

Bydd eich awdurdod lleol yn pennu'r dyddiad olaf y caniateir i ysgolion gyflwyno ffeiliau datganiadau CYBLD.

Mae'n rhaid i chi anfon datganiad eich ysgol atynt erbyn y dyddiad hwn fel y gallant ei wirio, datrys unrhyw ymholiadau ag ysgolion a'i anfon i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen sy'n ofynnol.

1.3 I ble ddylwn i anfon fy natganiad CYBLD?

Pan fyddwch wedi cwblhau eich datganiad CYBLD a'i wirio am wallau ac ymholiadau dylech ei anfon i'ch awdurdod lleol. Byddant yn gwneud rhai gwiriadau ychwanegol, yna'n ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru. Gweler [cwestiwn 1.4](#) i gael gwybodaeth am sut i anfon eich ffeil CYBLD.

1.4 Sut mae anfon fy ffeil CYBLD i'r awdurdod lleol?

Dylai ysgolion ddefnyddio'r gwefan trosglwyddo diogel ar gyfer Cymru, sef y [Menter Cyfnewid Data Cymru \(DEWi\)](#), i gyflwyno eu ffeiliau CYBLD.

Dylai pob ysgol fod wedi derbyn canllawiau eisoes ond er mwyn cael rhagor o wybodaeth am [DEWi](#) neu i gael canllawiau ar-lein ewch i <https://llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-nodiadau-cwblhau-technegol>.

1.5 Sut mae cael mynediad i DEWi?

Mae pob ysgol wedi derbyn enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer [DEWi](#).

Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair gallwch ei ail-greu drwy glicio ar y ddolen 'Wedi anghofio'r cyfrinair' ar dudalen flaen [DEWi](#). Bydd neges e-bost yn cael ei hanfon yn awtomatig i'r cyfeiriad a nodir yn [DEWi](#) ar gyfer yr ysgol. Bydd y neges e-bost yn cynnwys cyfarwyddiadau ynghylch sut i ailosod y cyfrinair.

Os nad yw cyfeiriad e-bost eich ysgol wedi'i gofnodi ar [DEWi](#), os ydych wedi anghofio eich enw defnyddiwr neu os ydych yn wynebu anawsterau wrth geisio mewngofnodi i'r safle cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

1.6 Sut y gallaf wirio'r data?

Unwaith y byddwch chi wedi anfon ffeil i'r awdurdod lleol a bydd y ffeil honno wedi'i mewnfario'n llwyddiannus i system [DEWi](#), gallwch weld nifer o adroddiadau i gael trosolwg o ddata eich ysgol. Yn eu plith mae: nifer y disgyblion fesul grŵp oedran, ethnigrwydd, yr iaith Gymraeg, bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig, ac iaith gyntaf (ac eithrio ysgolion meithrin ar gyfer iaith gyntaf). Bydd y rhain yn gymorth mawr i chi i sicrhau bod eich data yn gywir.

Gallwch hefyd weld crynodeb llawn yr ysgol drwy [DEWi](#) sef yr hyn a fydd wedi'i

gynhyrchu gan eich system gwybodaeth reoli (MIS).

Gofynnir i chi wirio'r adroddiadau a grëwyd yn [DEWi](#) yn ofalus er mwyn cadarnhau nifer y disgyblion a'u hawl i brydau ysgol am ddim **gan fod y ffigurau hyn yn cael effaith fawr ar gyfrifiadau cyllid yn y dyfodol.**

Am ragor o wybodaeth ar sut i weld yr adroddiadau cliciwch ar y ddolen gymorth unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i [DEWi](#). Os ydych yn dod ar draws problemau wrth edrych ar yr adroddiadau yna cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

1.7 Rwy'n methu dod o hyd i werth anhysbys ar gyfer cod ethnig disgybl, beth ddylwn i ei roi?

Nid yw **anhysbys** yn opsiwn dilys am yr eitem ar gyfer cod ethnig disgybl.

Pan na fydd ysgol wedi cael ateb gan y disgybl neu'r rhiant ar ôl ceisio cael un, neu pan na fu digon o amser i ddod o hyd i'r wybodaeth hon, yna dylid priodoli'r gwerth **ni chafwyd yr wybodaeth (NOBT)** i'r disgybl hwnnw.

Ceir rhagor o wybodaeth am gasglu a chofnodi data cefndir ethnig disgyblion yn nogfen canllaw [Dogfen Callaw Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr 006/2009](#).

1.8 A ddylid cynnwys disgybl nad yw'n cael ei ariannu gan fy awdurdod lleol i yn fy natganiad CYBLD?

Mae adegau pan fydd gan ysgolion ddisgyblion ar eu cofrestr nad ydynt yn cael eu hariannu gan eu hawdurdod lleol na Llywodraeth Cymru. Yn yr achosion hyn, a fydddech cystal â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddisgyblion o'r fath sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad CYBLD drwy anfon e-bost i PLASC@llyw.cymru.

1.9 Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf yn gwybod beth yw cod post cartref y disgybl?

Er bod adegau pan na fydd modd dod o hyd i god post disgybl a'i gofnodi'n gywir, dylai hyn fod yn eithriad yn hytrach na'r norm. Ewch i [wefan y Post Brenhinol](#) i ddod o hyd i'r cod post cywir os na all y disgybl na'r rhieni ei roi i chi.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylech ddefnyddio cod post yr ysgol yn lle cod post y cartref.

1.10 Beth ddylwn i ei wneud os nad allaf ganfod cyfenw disgybl?

Mewn rhai achlysuron nid yw'n bosib canfod cyfenw disgybl os ydi'r rhieni yn gwrthod datgelu'r wybodaeth hon. O dan yr amgylchiadau hynny dylai tîm cymorth awdurdod lleol anfon e-bost i Lywodraeth Cymru gyda'r manylion at PLASC@llyw.cymru.

1.11 Sut y bydd data CYBLD yn effeithio ar gasglu canlyniadau'r asesiadau athro?

Yn 2024/25 bydd dim Casgliad Data Cenedlaethol (CDC).

1.12 Oes angen i mi ddychwelyd y data ar y gweithlu?

Oes, mae angen i bob ysgol ddychwelyd y gwybodaeth am y gweithlu.

Cyflwynwyd Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ym mis Tachwedd 2019, i roi darlun cynhwysfawr o'r gweithlu ysgol. Er hynny, mae angen i Ysgolion ddychwelyd y data a gesglir ar y gweithlu fel rhan o ffurflen CBYLD ar gyfer 2025. Y bwriad yw diddymu'r elfennau gweithlu o'r CBYLD yn raddol, unwaith mae cywirdeb a chymaroldeb data CBGY wedi'u sicrhau, ac unrhyw wahaniaethau rhwng data'r CBGY a CBYLD wedi'u hesbonio.

1.13 A oes angen i mi ddarparu data ar gynorthwywyr addysgu?

Oes, dylai pob ysgol ddarparu gwybodaeth am nifer y cynorthwywyr addysgu (TA) yn yr ysgol os oes yna rai. Os nad oes cynorthwywyr yn yr ysgol, yna nid oes angen unrhyw wybodaeth.

Eleni mae'r cynorthwywyr addysgu lefel uwch (HLTA) wedi'u cynnwys mewn categori ar wahân. Mewn achos pan fydd aelod o staff o dan gontract i weithio fel HLTA a TA ar wahanol adegau o'r wythnos, dylid eu cofnodi yn y categori ar gyfer HLTA. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori HLTA dim ond os ydynt wedi cael statws HLTA yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel HLTA am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

1.14 A ddylwn i gynnwys athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (PPA) yn fy natganiad CYBLD?

Dylech. Dylid cynnwys pob athro yn yr ysgol ar y datganiad CYBLD, gan gynnwys y rheini sy'n cyflenwi mewn mwy nag un dosbarth.

O ganlyniad, mewn ysgolion cynradd, bydd nifer yr athrawon mewn dosbarth yn wahanol i gyfanswm yr athrawon cyfwerth ag amser llawn. Ni fydd y prosesau dilysu yn Llywodraeth Cymru yn achosi gwall os yw nifer yr athrawon hyd at ddau yn fwy na nifer y dosbarthiadau.

1.15 Ble gallaf gael copi o'r canllawiau diweddaraf ar ddata SEN yn CYBLD?

Cyhoeddwyd canllawiau manwl ar eitemau data anghenion addysgol arbennig (SEN) a dewis y gwerthoedd priodol ar gyfer awdurdod lleolau ac ysgolion yng <https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig>.

Mae codau mathau SEN disgyblion fel a ganlyn:

DYSL	SPLD - Dyslecsia
DYSC	SPLD - Dyscalculia
DYSP	SPLD - Dyspraxia
ADHD	SPLD - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd
MLD	Anawsterau dysgu cymedrol
SLD	Anawsterau dysgu difrifol
PMLD	Anawsterau dysgu dwys a lluosog
BESD	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
SLCD	Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu
HI	Nam ar y clyw
VI	Nam ar y golwg

MSI	Nam aml synhwyrdd
PMED	Anawsterau corfforol a meddygol
ASD	Anhwyllderâu ar y sbectrwm awtistig
DNA	Amherthnasol

1.16 Nid yw'r canllawiau SEN diweddaraf yn cynnwys 'Q - Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac Asesiad Statudol' fel gwerth dilys ar gyfer y maes 'Darpariaeth SEN Disgyblion' ond mae fy meddalwedd yn caniatáu i mi ei ddewis o hyd.

Mae'r rhan fwyaf o feddalwedd MIS yn cynnwys y gwerth hwn i'w ddefnyddio'n lleol o fewn ysgolion. Wrth greu CYBLD dylai hyn gael ei newid yn awtomatig i 'P – Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu gan y Blynyddoedd Cynnar a Mwy'. Ni ddylai unrhyw wall gael ei gofnodi.

1.17 Pam y mae nifer o eitemau yn dwyn yr enw 'darpariaeth' ar gyfer gwybodaeth am SEN?

Darpariaeth SEN yw'r enw maes a roddwyd ar y mathau o Ddarpariaeth o dan God Ymarfer SEN, sef y Cam SEN neu Statws SEN a gâi ei ddefnyddio cynt. Mae pedair eitem SEN pellach er mwyn cael manylion am y **cymorth a ddarperir**. Dyma'r eitemau: Y Cwricwlwm a Dulliau Addysgu, Grwpiau a Chymorth, Adnoddau Arbenigol, a Chyngor ac Asesu.

1.18 A ddylai staff cymorth a gyflogir at ddibenion un i un gael eu cynnwys yn y CYBLD?

Ni ddylai staff cymorth sydd mewn dosbarth yn benodol er mwyn gwneud gwaith un ac un gael eu cynnwys wrth gyfrif nifer y staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer pob dosbarth at ddibenion CYBLD. **Dylid**, fodd bynnag, eu cyfrif yn yr adran ar y ffurflen CYBLD ar wybodaeth staffio o dan staff cymorth.

1.19 A oes angen cofnodi cyfeiriadau e-bost ysgolion eleni?

Nac oes. Nid oes angen nodi cyfeiriad e-bost.

1.20 Mae diwrnod y cyfrifiad yn agosáu ac mae disgybl newydd wedi'i dderbyn i'r ysgol. Sut y gallaf osgoi unrhyw broblemau posibl?

Mae angen i ysgolion sy'n derbyn disgybl newydd gadarnhau bod ei gyn ysgol yn ymwybodol bod y disgybl wedi gadael ac wedi terfynu ei gofrestrriad â hi.

Dylai'r ysgol sy'n derbyn y disgybl geisio derbyn Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y disgybl cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu data a mewnbynnu anghenion ar gyfer cofnod y disgybl. Mae angen cwblhau cofnod y disgybl cyn llenwi'r datganiad CYBLD.

Mae canllawiau ar y system drosglwyddo gyffredin ar gael yng [Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 18/2006](#) a thrwy'r ddolen **Dogfennaeth S2S** ar y [Porth Ysgolion](#).

1.21 Sut allaf weld beth yw'r codau ethnigrwydd dilys?

I gael rhagor o wybodaeth ar gasglu a chofnodi data am gefndir ethnig disgyblion, gweler [nodiadau cwblhau technegol CYBLD](#).

1.22 A oes angen cofnodi manylion am ddarpariaeth SEN ar gyfer disgyblion sydd wedi eu gwahardd yn barhaol ond sy'n parhau ar gofrestr yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad oherwydd eu bod yn bwriadu apelio yn erbyn y penderfyniad?

Yn achos y disgyblion hynny sydd ag SEN ac sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol ond sy'n bwriadu apelio yn erbyn y penderfyniad, dylai'r ysgol gofnodi data SEN y disgyblion gan gynnwys lefel y ddarpariaeth a roddir iddynt, er gwaetha'r ffaith a ydynt yn derbyn cymorth SEN neu beidio. Gan nad yw'r broses apelio wedi dod i ben eto, y mae'n parhau yn briodol i gofnodi pa gymorth a dderbyniodd y disgybl cyn ei gwahardd a pha gymorth y bydd yn ei dderbyn pe bai'r apêl yn llwyddo.

1.23 Sut y dylwn gofnodi data petai'r ysgol yn cau ar ddiwrnod y cyfrifiad ar ei hyd neu am ran o'r dydd oherwydd tywydd garw?

O dan amgylchiadau anarferol megis yr ysgol yn cau oherwydd tywydd garw, dylai'r eitemau data lle bydd angen cyfrif nifer y disgyblion ar eu cyfer ar ddiwrnod y Cyfrifiad yn benodol (nifer y disgyblion amser llawn sy'n bresennol ar ddiwrnod y Cyfrifiad er enghraifft) gael eu seilio ar y diwrnod arferol nesaf. Gweler [nodiadau cwblhau technegol CYBLD](#) am ganllawiau manwl ar gyfer pob un o'r eitemau data sy'n ofynnol.

1.24 Sut wyf i yn cofnodi pwy sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac gwarchodaeth trosiannol?

Caiff disgybl brydau ysgol am ddim pan fydd y rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r meini prawf a phan fydd y rhiant neu'r disgybl wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim neu pan fydd rhywun wedi gwneud cais ar eu rhan. (Fel arfer, perthynas neu ffrind neu rywun sy'n gweithio gyda'r teulu, er enghraifft cynrychiolydd o'r [Ganolfan Cyngor ar Bopeth](#), yw'r person sy'n gweithredu ar ran y rhiant neu'r disgybl er mwyn eu helpu i gael yr holl fuddiannau y gallent fod â hawl iddyn nhw).

Nid oes modd caniatáu prydau ysgol am ddim heb fod cais am hynny wedi dod i law gan y rhiant neu'r disgybl neu gan rywun sy'n gweithio ar eu rhan. Caiff awdurdod lleol gysylltu â rhiant/gofalwr i ofyn iddyn nhw a hoffent wneud cais am brydau ysgol am ddim i'w plentyn/plant.

O 1 Ebrill 2019 newidiwyd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol. O'r dyddiad hwn, bydd y cymhwysedd cyfredol i dderbyn Credyd Cynhwysol ac i dderbyn trothwy incwm blynyddol o £ 7,400 neu lai.

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru hefyd y polisi ar gyfer gwarchodaeth trosiannol prydau ysgol am ddim. Mae'r gwarchodaeth hwn yn cael ei gymhwyso i unrhyw ddisgybl a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan y meini prawf blaenorol ar 1 Ebrill 2019 ac unrhyw ddisgybl sy'n dod yn gymwys o dan y meini prawf newydd yn ystod y cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol, sydd ar hyn o bryd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023. Bydd disgyblion sy'n cael eu gwarchod yn drosiannol yn derbyn eu prydau ysgol am ddim o dan y polisi hwn tan ddiwedd eu cyfnod ysgol, a ddiffinnir fel diwedd ysgol gynradd neu ddiwedd ysgol uwchradd.

Sylwch y gall disgyblion fod yn anghymwys i gael prydau ysgol am ddim fel yr adroddwyd gan y System Gwirio Cymhwyster (ECS) pan fydd yr awdurdod lleol yn prosesu'r cais, ac

ar yr un pryd hawl i brydau bwyd ysgol am ddim oherwydd ei fod yn cael gwarchodaeth drosiannol.

1.25 Ydy gwaharddiadau yn orfodol eleni?

Ie, mae gwaharddiadau parhaol a'r gwaharddiadau dros dro yn orfodol.

1.26 Beth yw'r codau gwahardd dilys am eleni?

Dangosir y codau gwahardd dilys yn y tabl isod.

Codau rheswm am y waharddiad

PP	Ymosodiad corfforol ar ddisgybl
PA	Ymosodiad corfforol ar oedolyn
VP	Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl
VA	Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn
BU	Bwlio
RA	Cam-drin hiliol
SM	Camymddygiad rhywiol
DA	Cyffuriau ac alcohol
DM	Difrod
TH	Dwyn
DB	Ymddygiad aflonyddgar parhaus
OT	Arall

Codau categori y gwaharddiad

FIXD	Dros dro amser penodol
PERM	Parhaol

Am unrhyw gwestiynau am waharddiadau, gwelwch y cyfarwyddiadau ar wefan AdAS: <https://llyw.cymru/gwahardd-or-ysgol-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion>.

1.27 Yng nghyd-destun Astudio Cymraeg (Study Welsh) yn Saesneg, beth ydy FP, LCW a WLD yn golygu?

Mae FP yn golygu'r Cyfnod Sylfaen (Foundation Phase); LCW yw Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Language, Literacy and Communication Skills (in Welsh)) a WLD yw Datblygu'r Gymraeg (Welsh Language Development).

1.28 Mae fy ysgol yn un â Statws Ysgol sydd wedi'u Ffedereiddio. O ble mae cael y Rhif Adnabod/Rhif Ysgol wedi'u Ffedereiddio?

Yn gyntaf, mae angen i chi roi gwybod i'r Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr yn eich awdurdod lleol a chynnwys Offeryn Llywodraethu. Yna, bydd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yn hysbysu'r tîm Llywodraethu Ysgolion a fydd yn dyrannu rhif ffederasiwn, a byddant yn ei drosglwyddo wedyn i'r Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr.

2. Ysgolion cynradd

2.1 Nid oes angen cofnodi disgyblion sy'n gymwys i gael llaeth ysgol am ddim mwyach ond mae fy system yn dal i holi am wybodaeth am laeth ysgol am ddim.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn mwyach am wybodaeth mewn perthynas â phob disgybl o ran a ydynt yn gymwys i gael llaeth ysgol am ddim neu beidio ond mae'n ofynnol i ysgolion roi gwybodaeth o hyd am gyfanswm y llaeth ysgol am ddim a gymerir ar ddiwrnod y cyfrifiad.

2.2 Mae fy meddalwedd MIS yn newid meysydd data'r Dosbarth Cymraeg pan fyddaf yn dewis Categori Iaith yr Ysgol.

Rydym yn gwybod bod rhai mathau o feddalwedd MIS yn newid y categorïau o 'Ddosbarth Cymraeg' sydd wedi'u cofnodi ar gyfer dosbarthiadau pan fydd y Categori Iaith yr Ysgol yn cael ei ddewis ar gyfer yr ysgol. Dewiswch y Categori Iaith yr Ysgol cywir *cyn* y gwneir unrhyw olygu ar ddata ynghylch dosbarthiadau er mwyn sicrhau na fydd dethol categori arall o ysgol yn disodli unrhyw ddata am ddosbarthiadau Cymraeg sydd eisoes wedi cael ei fewnbynnu. Bydd angen gwneud yn siŵr bod y gwerthoedd ar gyfer dosbarth Cymraeg yn cael eu nodi'n gywir a'u newid os bydd angen cyn eu lanlwytho i DEWi.

2.3 Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frechwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?

Os nad yw'r wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad yn wythnos ysgol lawn neu arferol dylai'r data gael ei gymryd o'r wythnos lawn arferol sydd agosaf at ddiwrnod y cyfrifiad.

I gael rhagor o wybodaeth am ddata ynghylch Brechwast am Ddim yn CYBLD gweler y canllawiau yn <https://llyw.cymru/brecwast-am-ddim-mewn-ysgolion-cynradd>.

2.4 Ar ddiwrnod y cyfrifiad bydd aelod o staff yn treulio peth amser mewn un dosbarth yn y bore ac yna amser gyda dosbarth arall yn y prynhawn. Sut y dylwn gofnodi'r aelod hwnnw o staff?

Pan fydd athro/athrawes neu aelod o staff cymorth yn gweithio gydag un dosbarth yn y bore a chyda dosbarth arall yn y prynhawn bydd angen eu cofnodi yn y ddau ddosbarth yn CYBLD, hyd yn oed os bydd dosbarth y bore yn parhau fel dosbarth y prynhawn, neu os oedd dosbarth y prynhawn y symudodd yr aelod o staff iddo hefyd yn ddosbarth y bore.

2.5 Mae gan fy ysgol dri dosbarth yn y bore sy'n parhau yn y prynhawn fel dau ddosbarth. Sut y dylwn ddisgrifio'r sefyllfa hon yn CYBLD?

Y tri dosbarth a gynhaliwyd yn y bore yw'r rhai y mae angen eu cofnodi, hyd yn oed os yw rhai o'r disgyblion o un o ddosbarthiadau'r bore yn rhan-amser, cyn belled â bod tri o athrawon cymwys rhwng dosbarthiadau'r bore.

2.6 Mae gan fy ysgol aelod o staff sy'n 'athro CACHE dan hyfforddiant' nad yw ar yr amserlen i weithio yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad. A ddylwn i gynnwys yr aelod yma o staff yng nghyfrifiad CYBLD?

Na ddylech. Ni ddylid cyfrif yr aelod yma o staff yng nghyfrif CYBLD o athrawon CACHE dan hyfforddiant. Ni ddylid ond cyfrif yr athrawon CACHE hynny dan hyfforddiant sy'n gweithio ar ddiwrnod y cyfrifiad yn natganiad CYBLD er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith.

2.7 Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?

Yn yr achos hwn dylai'r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori'r cynorthwydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori HLTA dim ond os ydynt wedi cael statws HLTA yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel HLTA am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

2.8 Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD?

Cafodd eitem data ar gamau dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer CYBLD 2009. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn nodiadau cwblhau CYBLD yn

<https://llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-nodiadau-cwblhau-technegol>.

2.9 Pam ddylwn i gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?

Bydd y data yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgolion wrth iddynt asesu cyrhaeddiad a datblygiad cynyddol disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt fel rhan o'u proses hunanasesu ac at ddibenion cymharu. Bydd y data hefyd yn creu llinell sylfaen ar gyfer Awdurdodau Lleol (awdurdod lleolau) a Llywodraeth Cymru fel y gallant lunio dadansoddiadau ac adroddiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fonitro hynt y grŵp hwn o ddysgwyr.

2.10 A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Na. Noder **nad** bwriad yr eitem data hon yw nodi lefelau rhuglder Saesneg i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond yn hytrach i nodi hyfedredd iaith Saesneg i ddysgwyr ieithoedd ychwanegol nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

2.11 Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Caiff manylion ynghylch camau disgyblion o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol eu harolygu'n flynyddol gan Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arbenigol neu gan wasanaethau Saesneg fel iaith Ychwanegol o fewn awdurdod lleolau. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

2.12 Nid oes darpariaeth SEN ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Beth ddylid ei gofnodi ar gyfer y camau sy'n cael eu cymryd?

Dylai disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gael eu hystyried fel disgyblion y Blynyddoedd Cynnar at ddiben yr SEN. Y categorïau dilys ar gyfer darpariaeth SEN yw:

- S Datganiad
- A Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar
- P Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy
- N Dim Anghenion Addysgol Arbennig
- C Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Ysgol
- L Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol

2.13 Ble mae'r manylion mewn gofal wedi mynd? Ydi hyn yn cael ei gasglu yn CYBLD mwyach?

Rydyn wedi dileu pob eitem sy'n ymwneud â gofal o'r casgliad gan ei fod nawr yn cael ei gasglu fel rhan o'r [Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth](#)

2.14 CYBLD a'r Cyfnod Sylfaen

Defnyddir data o CYBLD i amcangyfrif y gost genedlaethol o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cyfrifir dyraniadau i awdurdod lleolau ar wahân trwy ddefnyddio'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer ysgolion cynradd, fel y cytunwyd gyda ADEW a'r WLGA.

Defnyddir yr eitemau data canlynol yn y cyfrifiadau. Ar lefel dosbarth unigol mae pob eitem o ddata. Ceir manylion pellach yn adran 6 o'r nodiadau

cyfarwyddyd CYBLD.

Math o ddsbarth, Grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol

Defnyddir cyfuniad y tair eitem yma i benderfynu'r gymhareb briodol ar gyfer y dosbarth.

Nifer y disgyblion

Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y disgyblion unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol, a hefyd disgyblion yn absennol ar ddydd y cyfrifiad ond yn arferol yn y dosbarth. Defnyddir nifer y disgyblion yn y dosbarth i benderfynu nifer y staff sydd angen yn y dosbarth i gyrraedd y gymhareb briodol.

Athrawon a staff cymorth

Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y staff unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys pob staff dim ots sut y cyllidwyd e.e. LMS, grant Cyfnod Sylfaen neu unrhyw ffynhonnell arall. Fe ddylech eithrio staff sy'n darparu cymorth addysg arbennig un i un llawn-amser neu staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn fel rhan o gynllun RAISE.

Fe ddylech gofnodi staff ym mhob dosbarth y maent yn dysgu neu yn cymorth ar ddiwrnod y Cyfrifiad e.e. ar gyfer dosbarthiadau meithrin gwahanol fore a phrynhawn gyda'r un aelodau staff, fe ddylech gofnodi'r staff yma dwywaith. Oherwydd hyn, bydd Ymholiad 12189 yn cael ei adrodd yn hytrach na gwall.

2.15 A fydd y data CYBLD ar fy nghyfer i yn cael eu defnyddio yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan?

Bydd. Mae CYBLD yn darparu llawer o'r data cyd-destunol a ddefnyddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.

Rhennir y setiau data ag ysgolion ac awdurdod lleolau i gefnogi hunan-werthuso ysgolion a hybu heriau a helpu i bennu a rhannu arfer da. Mae Estyn hefyd yn defnyddio'r setiau data fel rhan o'u deunydd arolygu. Mae'n bwysig bod data CYBLD yn cael ei nodi'n fanwl gywir gan ysgolion er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac addas i'r ysgol ac awdurdod lleol.

Yr elfennau pwysicaf yw'r meysydd yn ymwneud â chymhwysedd pob disgybl i gael prydau ysgol am ddim, cod post y disgybl, cam o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig a maint a chyfrwng addysgu'r ysgol – mae'r rhain i gyd yn cael eu defnyddio i bennu'r teuluoedd o ysgolion sy'n tanategu'r pecynnau hyn.

2.16 Mae Gwall 12190 yn cael ei nodi ond mae nifer yr athrawon yn uwch neu'n gyfwerth â nifer yr athrawon mewn dosbarthiadau. Beth ddylwn i ei wneud?

Rheol 12190, efallai y bydd cymharu nifer yr athrawon â'r dosbarthiadau a nodir yn achosi gwall ym meddalwedd MIS yr ysgol gan nad yw'r rheol yn cyfri'r categorïau newydd i athrawon sef AC (Pennaeth Dros Dro) ac AS

(Penaethiaid Cynorthwyol), gan roi nifer anghywir o athrawon yn y neges gwall. Gall ysgolion anwybyddu'r maes hwn a lanlwytho'r ffeil i DEWi – ni fydd gwall 12190 ar DEWi.

3. Ysgolion canol

3.1 Mae fy ysgol yn ysgol canol – sut ddylai llenwi fy natganiad CYBLD?

Dylai pob ysgol ganol llenwi datganiad ei huny yn yr un modd a phob ysgol arall. Dylid anfon unrhyw gwestiynau cyffredinol at IMS@llyw.cymru

4. Ysgolion uwchradd

4.1 A oes angen i mi ddarparu data ar gynorthwywyr addysgu?

Oes. Mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd ddarparu gwybodaeth am nifer y cynorthwywyr addysgu.

4.2 Ar gyfer pa ddisgyblion y mae angen i mi roi gwybodaeth am lythrennedd a rhifedd (sgiliau sylfaenol)?

Nid oes angen data sgiliau sylfaenol ar gyfer CYBLD.

4.3 Sut mae anfon data ar gyfer disgybl o dan 16 ond sy'n cael addysg cwricwlwm ôl-16 /sy'n cael ei addysgu ym mlwyddyn 12 neu'n uwch?

Ariennir y disgyblion hyn drwy'r Cynllunio ôl-16 a'r fframwaith cyllido.

Dylid anfon gwybodaeth am ddisgyblion o'r fath drwy'r casgliad Cynllunio ôl-16 yn Hydref 2025.

4.4 Sut mae anfon data ar gyfer disgybl dros 16 oed ond sy'n cael ei addysgu yng nghyfnod allweddol 4 y cwricwlwm/ym mlwyddyn 11 neu'n is?

Ariennir y disgyblion hyn drwy Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol. Mae'r grant hwn yn ystyried disgyblion **tros 16 oed ond sy'n cael addysg cwricwlwm cyfnod allweddol 4/sy'n cael ei addysgu ym mlwyddyn 11 neu'n is**, pan fo gwybodaeth amdanynt yn y CYBLD.

4.5 GWALL 3520 - Rwyf wedi cofnodi pob athro sy'n addysgu'r Gymraeg ond rwy'n dal i gael neges gwall, rhif 3520?

Gwnewch yn siŵr fod y cod Addysgu'r Gymraeg wedi'i roi ar gyfer pob athro a phennaeth sy'n addysgu, yna ni ddylai'r gwall ymddangos.

Dylid rhoi categori Addysgu'r Gymraeg ar gyfer POB athro (hynny yw pob athro sy'n Bennaeth, yn Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Dros Dro, yn Bennaeth Cynorthwyol neu'n athro cymwysedig o ran eu statws athro) ar wahân i bennaeth nad yw'n addysgu. Ar gyfer pob athro nad yw neu na all addysgu'r Gymraeg mae angen rhoi'r cod priodol sef naill ai 'NW = Athrawon cymwysedig sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad ydynt yn gwneud hynny', neu 'NT = ddim yn addysgu'r Gymraeg neu'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg'.

Felly rhaid i gyfanswm nifer yr athrawon sydd â chategori addysgu'r Gymraeg naill ai:

- fod yn gyfartal i gyfanswm nifer yr athrawon sydd yn addysgu yn y dosbarth (pob un sy'n Bennaeth, yn Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth

Dros Dro, yn Bennaeth Cynorthwyol neu'n athro cymwysedig)

neu:

- fod yn gyfartal i gyfanswm nifer yr athrawon ac eithrio'r Pennaeth os nad ydynt yn addysgu yn y dosbarth (pob un sy'n Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Dros Dro, yn Bennaeth Cynorthwyol neu'n athro cymwysedig).

4.6 Mae fy meddalwedd MIS yn newid meysydd data'r dosbarth Cymraeg pan fyddaf yn dewis Categori Iaith yr Ysgol.

Rydym yn gwybod bod rhai mathau o feddalwedd MIS yn newid y categorïau o dosbarth Cymraeg sydd wedi'u cofnodi ar gyfer dosbarthiadau pan fydd Categori Iaith yr Ysgol yn cael ei ddewis ar gyfer yr ysgol. Dewiswch Categori Iaith yr Ysgol cywir *cyn* y gwneir unrhyw olygu ar ddata ynghylch dosbarthiadau er mwyn sicrhau na fydd dethol categori arall o ysgol yn disodli unrhyw ddata am ddosbarthiadau Cymraeg sydd eisoes wedi cael ei fewnbynnu. Bydd angen gwneud yn siŵr bod y gwerthoedd ar gyfer dosbarth Cymraeg yn cael eu nodi'n gywir a'u newid os bydd angen cyn eu lanlwytho i DEWi.

4.7 Mae aelod o staff cymorth yr ysgol dan contract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?

Yn yr achos hwn dylai'r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori'r cynorthwydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori HLTA dim ond os ydynt wedi cael statws HLTA yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel HLTA am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

4.8 Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?

Cafodd eitem data ar gamau dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer CYBLD 2009. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn nodiadau cwblhau CYBLD yn

<https://llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-nodiadau-cwblhau-technegol>.

4.9 Pam ddylwn i gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?

Bydd y data yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgolion wrth iddynt asesu cyrhaeddiad a datblygiad cynyddol disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt fel rhan o'u proses hunanasesu ac at ddibenion cymharu. Bydd y data hefyd yn creu llinell sylfaen ar gyfer awdurdodau lleol (ALLau) a Llywodraeth Cymru fel y gallant lunio dadansoddiadau ac adroddiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fonitro hynt y grŵp hwn o ddysgwyr.

4.10 A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Na. Noder **nad** bwriad yr eitem data hon yw nodi lefelau rhuglder Saesneg i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond yn hytrach i nodi hyfedredd iaith Saesneg i ddysgwyr ieithoedd ychwanegol nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

4.11 Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Caiff manylion ynghylch camau disgyblion o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol eu harolygu'n flynyddol gan Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arbenigol neu gan wasanaethau Saesneg fel iaith Ychwanegol o fewn awdurdod lleolau. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

4.12 Ble mae'r manylion mewn gofal wedi mynd? Ydi hyn yn cael ei gasglu yn CYBLD mwyach?

Rydyn wedi dileu pob eitem sy'n ymwneud â gofal o'r casgliad gan ei fod nawr yn cael ei gasglu fel rhan o'r [Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth](#)

4.13 Mae Gwall 601 a/neu 11251 yn cael ei nodi ar gyfer dosbarth 14-19 sy'n cael ei ddysgu oddi ar safle'r ysgol heb athro yn perthyn i'r dosbarth. Beth ddylwn i ei wneud?

Parhewch â'ch datganiad. Dylai tîm cymorth eich awdurdod lleol nodi'r manylion yn y blwch sylwadau wrth y gwall yn DEWi.

4.14 A fydd fy nata CYBLD yn cael ei ddefnyddio yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan?

Bydd. Mae CYBLD yn darparu llawer o'r data cyd-destunol a ddefnyddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Rhennir y setiau data ag ysgolion ac awdurdod lleolau i gefnogi hunan-werthuso ysgolion a hybu heriau a helpu i bennu a rhannu arfer da. Mae Estyn hefyd yn defnyddio'r setiau data fel rhan o'u deunydd arolygu. Mae'n bwysig bod data CYBLD yn cael ei nodi'n fanwl gywir gan ysgolion er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac addas i'r ysgol ac awdurdod lleol.

Yr elfennau pwysicaf yw'r meysydd yn ymwneud â chymhwysedd pob disgybl i gael prydau ysgol am ddim, cod post y disgybl, cam o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig a chyfrwng addysgu'r ysgol – mae'r rhain i gyd yn cael eu defnyddio i

bennu'r teuluoedd o ysgolion sy'n tanategu'r pecynnau hyn.

4.15 Beth yw Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN)?

Rhif unigryw 10 digid ydi'r ULN sy'n cael ei neilltuo i ddysgwyr dros 14 mlwydd oed. Mae'r rhif hwn yn galluogi dysgwr ddatblygu cofnod gydol-oes o'u cymwysterau a'u llwyddiannau ym maes addysg.

4.16 Sut allaf i dderbyn Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) ar gyfer fy nisgyblion?

Ni all dysgwr gael ULN ar eu cyfer eu hunain. Gellir cael ULN trwy'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn unig

<https://www.gov.uk/government/collections/learning-records-service>.

Yn gyntaf, bydd yn rhaid i **bob** ysgol yng Nghymru sydd am gael Rhif Unigryw'r Dysgwr ar gyfer eu disgyblion a'u myfyrwyr :

- Sicrhau bod manylion yr ysgol wedi'u diweddarau ar y Cofrestr Darparwyr ar <http://www.ukrlp.co.uk/> a nodi Cyfeirnod Darparwr y DU;
- Gorfrestru gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu fel Corff Cofrestru Dysgwyr;
- Rhoi Hysbysiad Preifatrwydd diwygiedig (Prosesu Teg gynt) (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar [wefan AdAS](#)) a chofnodi dewis unrhyw unigolyn i 'eithrio allan' o rannu data;
- Os bydd ysgol yn cytuno i'w ffeil gael ei hanfon i'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn rhan o'r broses CYBLD, caiff y ffeil a fydd yn cynnwys y Rhifau Dysgu Unigryw (RhDU) ei rhoi yn DEWi.

4.17 Bydd Gwall 1281 yn ymddangos ar gyfer disgyblion ôl-16 sydd ddim yn astudio Cymraeg. Beth ddylwn i ei wneud?

ydym wedi dileu codau 3 (dysgu Cymraeg arall) a 4 (ddim yn dysgu Cymraeg o gwbl) o'r opsiynau astudio Cymraeg. Mae hyn yn golygu dylai'r disgyblion sydd wedi cael cod 3 neu 4 wedi'u llenwi ar eu cyfer cael eu disodli gan naill god 1 (dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf), 2 (dysgu Cymraeg fel ail iaith) neu 5 (wedi'i ddatgymhwyso)

Am y mwyafrif o ddisgyblion sydd ddim yn ôl-16, bydd codau 1,2 neu 5 yn gymwys. Er hynny, nad yw'n wir am ddisgyblion ôl-16 sydd ddim yn astudio Cymraeg ac sydd ddim wedi'u gorfodi yn stadudol i'w ddysgu. **Cofnodwch y disgyblion yma fel 5.**

5. Ysgolion arbennig

5.1 A oes angen i ysgolion arbennig anfon datganiad CYBLD?

Oes, mae disgwyl i bob ysgol arbennig anfon datganiad CYBLD. Nid yw ond yn ofynnol i ysgolion arbennig, â darpariaeth ôl-16 a hebddi, gwblhau gwybodaeth safonol CYBLD. Mae angen **unrhyw** wybodaeth am ôl-16 o ysgolion arbennig.

5.2 Mae fy System Gwybodaeth Reoli (MIS) yn dweud wrthyf fod angen i mi gynnwys gwybodaeth am staff cymorth ond nid oes staff cymorth yn yr ysgol.

Mae hon bellach yn eitem ddewisol ar gyfer Ysgolion Arbennig, er y dylid ei chynnwys os oes staff cymorth yn yr ysgol. Os nad oes staff cymorth yn yr ysgol yna anwybyddwch wall 840 a lanlwytho'r ffeil fel sy'n arferol yn DEWi.

5.3 Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?

Os nad yw'r wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad yn wythnos ysgol lawn neu arferol dylai'r data gael ei gymryd o'r wythnos lawn arferol sydd agosaf at ddiwrnod y cyfrifiad.

I gael rhagor o wybodaeth am ddata ynghylch Brechwast am Ddim yn CYBLD gweler y canllawiau yn <https://llyw.cymru/brecwast-am-ddim-mewn-ysgolion-cynradd>.

5.4 Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?

Yn yr achos hwn dylid rhoi gwybod am yr aelod o staff yn y categori cynorthwydd addysgu lefel uwch yn unig, ond dim ond os yw wedi derbyn statws HLTA yn ffurfiol ar ôl cwblhau'r broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr yn llwyddianus ac yn cael eu defnyddio mewn swyddogaeth HLTA am ran neu'r wythnos gyfan y dylid rhoi gwybod am staff cymorth yn y categori HLTA.

5.5 Ble mae'r manylion mewn gofal wedi mynd? Ydi hyn yn cael ei gasglu yn CYBLD mwyach?

Rydyn wedi dileu pob eitem sy'n ymwneud â gofal o'r casgliad gan ei fod nawr yn cael ei gasglu fel rhan o'r [Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth](#)

5.6 CYBLD a'r Cyfnod Sylfaen

Defnyddir data o CYBLD i amcangyfrif y gost genedlaethol o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cyfrifir dyraniadau i awdurdod lleolau ar wahân trwy

ddefnyddio'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer ysgolion cynradd, fel cytunwyd gyda ADEW a'r WLGA.

Defnyddir yr eitemau data canlynol yn y cyfrifiadau. Ar lefel dosbarth unigol mae pob eitem o ddata. Ceir manylion pellach yn adran 6 o'r nodiadau cyfarwyddyd CYBLD.

Math o ddosbarth, Grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol

Defnyddir cyfuniad y tair eitem yma i benderfynu'r gymhareb briodol ar gyfer y dosbarth.

Nifer y disgyblion

Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y disgyblion unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol, a hefyd disgyblion yn absennol ar ddydd y cyfrifiad ond yn arferol yn y dosbarth. Defnyddir nifer y disgyblion yn y dosbarth i benderfynu nifer y staff sydd angen yn y dosbarth i gyrraedd y gymhareb briodol.

Athrawon a staff cymorth

Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y staff unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys pob staff dim ots sut y cyllidwyd e.e. LMS, grant Cyfnod Sylfaen neu unrhyw ffynhonnell arall. Fe ddylech eithrio staff sy'n darparu cymorth addysg arbennig un i un llawn-amser neu staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn fel rhan o gynllun RAISE.

Fe ddylech gofnodi staff ym mhob dosbarth y maent yn dysgu neu yn cymorth ar ddiwrnod y Cyfrifiad e.e. ar gyfer dosbarthiadau meithrin gwahanol fore a phrynhawn gyda'r un aelodau staff, fe ddylech gofnodi'r staff yma dwywaith. Oherwydd hyn, gellid anwybyddu gwallau 616 a 895 os y'u hachosir gan y cofnodi dwbl hyn.

6. Unedau/ysgolion meithrin

6.1 A oes angen i ysgolion meithrin anfon datganiad CYBLD?

Oes, mae angen i ysgolion meithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol gwblhau ac anfon datganiad CYBLD. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd sydd ag unedau meithrin gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'u disgyblion meithrin yn eu datganiad CYBLD.

6.2 Pryd mae angen cynnwys data CYBLD ar gyfer disgyblion Meithrin mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar?

Os yw'r ddarpariaeth addysg a gyllidir yn cael ei gweithredu gan gwmni neu unigolyn preifat yna mae'n ddarpariaeth nas cynhelir ac nid oes angen data CYBLD. Nid oes gwahaniaeth a yw'r sefydliad wedi'i leoli mewn adeilad sy'n eiddo i ysgol na hyd yn oed os oes ysgol neu awdurdod lleol yn darparu rhywfaint o fewnbwn athrawon cymwysedig.

Os caiff y ddarpariaeth ei gweithredu (h.y. ei rheoli a'i staffio) gan ysgol, yna i bob pwrpas mae'n ddarpariaeth a gynhelir. Dylai'r sefydliadau hyn gadw cofnodion disgyblion a darparu manylion drwy'r datganiad CYBLD yn y ffordd arferol.

6.3 Pa ddata sydd ei angen ar gyfer disgyblion Meithrin?

Mae'r gofynion data CYBLD yn llai niferus ar gyfer disgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, er enghraifft nid yw'n ofynnol darparu manylion am grŵp ethnig neu hunaniaeth genedlaethol.

Mae'r canllawiau ar gyfer ysgolion Meithrin yn rhoi'r manylion llawn ac maent ar gael yn <https://llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-nodiadau-cwblhau-technegol>.

6.4 Sut y dylwn i gofnodi data ar gyfer disgyblion 3 oed a ariennir gan Grant y Blynyddoedd Cynnar yn fy Meithrinfa?

Dylid cofnodi'r data ar gyfer pob disgybl meithrin yn yr un ffordd â disgyblion eraill ar system gwybodaeth reoli'r ysgol. Yn y gorffennol rydym wedi gofyn i ysgolion ddefnyddio'r statws cofrestru i geisio gwahaniaethu rhwng disgyblion a ariennir drwy grant setliad refeniw a'r grant blynyddoedd cynnar ond nid oes angen hyn mwyach.

6.5 Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?

Os nad yw'r wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad yn wythnos ysgol lawn neu arferol dylai'r data gael ei gymryd o'r wythnos lawn arferol sydd agosaf at ddiwrnod y cyfrifiad.

I gael rhagor o wybodaeth am ddata ynghylch Brechwast am Ddim yn CYBLD gweler y canllawiau yn <https://llyw.cymru/brecwast-am-ddim-mewn-ysgolion-cynradd>.

6.6 Ar ddiwrnod y cyfrifiad bydd aelod o staff yn treulio peth amser mewn un dosbarth yn y bore ac yna amser gyda dosbarth arall yn y prynhawn. Sut y dylwn gofnodi'r aelod hwnnw o staff?

Pan fydd athro/athrawes neu aelod o staff cymorth yn gweithio gydag un dosbarth yn y bore a chyda dosbarth arall yn y prynhawn bydd angen eu cofnodi yn y ddau ddosbarth yn CYBLD, hyd yn oed os bydd dosbarth y bore yn parhau fel dosbarth y prynhawn, neu os oedd dosbarth y prynhawn y symudodd yr aelod o staff iddo hefyd yn ddosbarth y bore.

6.7 Mae gan fy ysgol dri dosbarth yn y bore sy'n parhau yn y prynhawn fel dau ddosbarth. Sut y dylwn ddisgrifio'r sefyllfa hon yn CYBLD?

Y tri dosbarth a gynhaliwyd yn y bore yw'r rhai y mae angen eu cofnodi, hyd yn oed os yw rhai o'r disgyblion o un o ddosbarthiadau'r bore yn rhan-amser, cyn belled â bod tri o athrawon cymwys rhwng dosbarthiadau'r bore.

6.8 Mae gan fy ysgol aelod o staff sy'n 'athro CACHE dan hyfforddiant' nad yw ar yr amserlen i weithio yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad. A ddylwn i gynnwys yr aelod yma o staff yng nghyfrifiad CYBLD?

Na ddylech. Ni ddylid cyfrif yr aelod yma o staff yng nghyfrif CYBLD o athrawon CACHE dan hyfforddiant. Ni ddylid ond cyfrif yr athrawon CACHE hynny dan hyfforddiant sy'n gweithio ar ddiwrnod y cyfrifiad yn natganiad CYBLD er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith.

6.9 Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gcontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?

Yn yr achos hwn dylai'r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori'r cynorthwydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori HLTA dim ond os ydynt wedi cael statws HLTA yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel HLTA am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

6.10 Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD?

Cafodd eitem data ar gamau dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer CYBLD 2009.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn nodiadau cwblhau CYBLD yn <https://llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-nodiadau->

6.11 Pam ddylwn i gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?

Bydd y data yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgolion wrth iddynt asesu cyrhaeddiad a datblygiad cynyddol disgyblion y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt fel rhan o'u proses hunanasesu ac at ddibenion cymharu. Bydd y data hefyd yn creu llinell sylfaen ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fel y gallant lunio dadansoddiadau ac adroddiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fonitro hynt y grŵp hwn o ddysgwyr.

6.12 A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Na. Noder **nad** bwriad yr eitem data hon yw nodi lefelau rhuglder Saesneg i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond yn hytrach i nodi hyfedredd iaith Saesneg i ddysgwyr ieithoedd ychwanegol nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

6.13 Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Caiff manylion ynghylch camau disgyblion o ran Saesneg fel iaith Ychwanegol eu harolygu'n flynyddol gan Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arbenigol neu gan wasanaethau Saesneg fel iaith Ychwanegol o fewn awdurdod lleolau. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

6.14 Nid oes darpariaeth SEN ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen? Beth ddylid ei gofnodi ar gyfer y camau sy'n cael eu cymryd?

Dylai disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gael eu hystyried fel disgyblion y Blynyddoedd Cynnar at ddiben yr SEN yn CYBLD 2023. Y categorïau dilys ar gyfer darpariaeth SEN yw:

- S Datganiad
- A Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar
- P Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy
- N Dim Anghenion Addysgol Arbennig
- C Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Ysgol
- L Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol

6.15 CYBLD a'r Cyfnod Sylfaen.

Defnyddir data o CYBLD i amcangyfrif y gost genedlaethol o weithredu'r

Cyfnod Sylfaen. Cyfrifir dyraniadau i awdurdod lleolau ar wahân trwy ddefnyddio'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer ysgolion cynradd, fel cytunwyd gyda ADEW a'r WLGA.

Defnyddir yr eitemau data canlynol yn y cyfrifiadau. Ar lefel dosbarth unigol mae pob eitem o ddata. Ceir manylion pellach yn adran 6 o'r nodiadau cyfarwyddyd CYBLD.

Math o ddsbarth, Grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol

Defnyddir cyfuniad y tair eitem yma i benderfynu'r gymhareb briodol ar gyfer y dosbarth.

Nifer y disgyblion

Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y disgyblion unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol, a hefyd disgyblion yn absennol ar ddydd y cyfrifiad ond yn arferol yn y dosbarth. Defnyddir nifer y disgyblion yn y dosbarth n benderfynu nifer y staff sydd angen yn y dosbarth i gyrraedd y gymhareb briodol.

Athrawon a staff cymorth

Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y staff unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys pob staff dim ots sut y cyllidwyd e.e. LMS, grant Cyfnod Sylfaen neu unrhyw ffynhonnell arall. Fe ddylech eithrio staff sy'n darparu cymorth addysg arbennig un i un llawn-amser neu staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn fel rhan o gynllun RAISE.

Fe ddylech gofnodi staff ym mhob dosbarth y maent yn dysgu neu yn cymorth ar ddiwrnod y Cyfrifiad e.e. ar gyfer dosbarthiadau meithrin gwahanol fore a phrynhawn gyda'r un aelodau staff, fe ddylech gofnodi'r staff yma dwywaith. Oherwydd hyn, bydd Ymholiad 12189 yn cael ei adrodd yn hytrach na gwall.

6.16 Mae gwall 12190 yn cael ei nodi ond mae nifer yr athrawon yn gyfartal â neu'n fwy na nifer yr athrawon a nodir mewn dosbarthiadau. Beth ddylwn i ei wneud?

Rheol 12190, efallai y bydd cymharu nifer yr athrawon â'r dosbarthiadau a nodir yn achosi gwall ym meddalwedd MIS yr ysgol gan nad yw'r rheol yn cyfri'r categorïau newydd i athrawon sef AC (Pennaeth Dros Dro) ac AS (Pennaethiaid Cynorthwyol), gan roi nifer anghywir o athrawon yn y neges gwall. Gall ysgolion anwybyddu'r maes hwn a lanlwytho'r ffeil i DEWi – ni fydd gwall 12190 ar DEWi.

7. Unedau cyfeirio disgyblion (PRUs)

7.1 A oes angen i unedau cyfeirio disgyblion anfon datganiad CYBLD?

Na. Mae casgliad data EOTAS i awdurdodau lleol am ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth am ddisgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion fel na fydd bellach yn ofynnol i'r Unedau hyn gyflwyno eu datganiad CYBLD eu hunain.

Ni ddylid cofnodi disgyblion nad ydynt yn mynychu ysgolion prif ffrwd yn y ffordd hon ar y datganaid CYBLD – mae'n **rhaid** iddynt gael eu cofnodi drwy'r broses Addysg Heblaw yn yr Ysgol. I gael rhagor o wybodaeth am hyn anfonwch e-bost at school.stats@gov.wales.

8. Ble mae rhagor o gymorth ar gael?

8.1 Ble mae rhagor o gymorth ar gyfer CYBLD ar gael?

Caiff y Cwestiynau ac Atebion eu diweddarau o bryd i'w gilydd wrth i faterion eraill godi sy'n berthnasol i lawer o ysgolion. Byddwn yn rhoi'r diweddaraf ar ein gwefan ac yn e-bostio enwau cyswllt yn yr awdurdod lleolau. Mae nodiadau cwblhau hefyd ar gael ar ein gwefan yn <https://llyw.cymru/cyfrifiad-ysgolion-blynyddol-ar-lefel-disgyblion-nodiadau-cwblhau-technegol>. Dilynwch y dolenni i 'Casgliadau Data' a 'Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)'.

Os oes gennych ymholiadau ar CYBLD cysylltwch â ni yn PLASC@llyw.cymru neu IMS@llyw.cymru.

Am faterion BRYS cysylltwch â Catherine Singleton ar 0300 025 1744.